NADOLIG LLAWEN
HAPPY CHRISTMAS





## Nadolig Llawen Iawn i chi oddi wrth yr Eglwys yng Nghymru ac Esgob Gregory o Esgobaeth Llanelwy.

Rwy'n ymwybodol iawn y bydd y Nadolig hwn yn wahanol iawn i unrhyw un rydym ni wedi'i ddathlu o'r blaen.Prin y gallai 2020 fod wedi bod yn fwy wahanol i unrhyw flwyddyn arall yn ein bywydau ac rydym ni'n sylweddoli erbyn hyn fod taith hir o'n blaenau cyn y bydd ein bywydau'n ôl yn ddiogel unwaith eto.

Mae hynny'n golygu y gallai'r Nadolig fod yn llai nag yr oeddem yn obeithio. Efallai na fydd teulu'n gallu dod i'n gweld ni, efallai na fydd cymaint o firi wrth gyfnewid anrhegion, efallai bydd tristwch yn codi o salwch neu hyd yn oed brofedigaeth.

Er gwaethaf hynny, rwy'n dymuno Nadolig llawen i chi - nid oherwydd bod popeth yn iawn, ond oherwydd fy mod yn credu fod y neges Gristnogol am y Nadolig - fod Duw wedi'i eni'n blentyn ym Methlehem ar Ddydd Nadolig ddwy fil o flynyddoedd yn ôl - yn dal yn berthnasol heddiw.Mae Cristnogion yn credu, drwy gael ei eni yn ein mysg, fod Creawdwr Nef a Daear wedi dweud wrth bob un ohonom: "Rwy'n dy garu di, ac rwyf eisiau byw yn eich mysg." Mae'n golygu ein bod ni'n credu fod Duw ar gael i'n hiachau, i'n nerthu, i'n caru ac i'n hadnewyddu yn ein bywydau, ble bynnag a phryd bynnag mae'n cael ei groesawu a'i wahodd i fod yn bresennol - yn ein calon ac yn ein bywydau.

Felly, rwy'n gobeithio y byddwch yn canfod llawenydd a chariad y Nadolig hwn, ac efallai amser i adrodd y pennill o'r garol enwog "O deued pob Cristion" fel gweddi:

Rhown glod i'r Mab bychan ar liniau Mair wiwlan,
Daeth Duwdod mewn baban i'r byd:
Ei ras O derbyniwn ei haelddiant cyhoeddwn
A throsto ef gweithiwn i gyd.

Boed i Dduw eich bendithio,

+Gregory Llanelwy

## 25

Gwrandewch ar gyfarchiad Nadolig Esgob Gregory ar https://dioceseofstasaph.org.uk/

## 26

(Gŵyl Sant Steffan)

Ceisiwch ganfod ychydig o dawelwch i ddarllen stori'r Nadolig yn Luc, penodau 1 a 2.

## 27

Ewch am dro neu treuliwch amser yn yr awyr agored neu edrychwch allan o'r ffenestr gan roi diolch am greadigaeth Duw.

## 28

Anfonwch neges garedig at aelod o'r teulu nad ydych wedi cael sgwrs ag o neu hi ers tipyn.

## 29

Anfonwch rodd at elusen rydych yn ei hedmygu ond erioed wedi'i chefnogi o'r blaen.

## 30

Meddyliwch am eich hoff garol a gwrandewch arni o'r newydd.

## 31

Meddyliwch am rywun oedd yn eich caru ac oedd wedi'ch helpu (yn fyw neu wedi ymadael) a gweddïwch am a thros y person hwnnw

## 1

(Dydd Calan)

Goleuwch gannwyll a meddyliwch am y bobl a lleoedd y mae gennych chi ots amdanyn nhw yn 2021.

## 2

Meddyliwch am rywbeth y gallwch ei wneud i roi syrpreis a dod â llawenydd i rywun arall.

## 3

Edrychwch ar y sêr yn awyr y nos a chofiwch daith y doethion (y Brenhinoedd) i ymweld â'r Iesu.

## 4

Cysylltwch â'ch banc bwyd agosaf a chael gwybod sut y gallwch ei gefnogi gyda naill ai arian neu rodd o fwyd.

## 5

(Nos Ystwyll)

Dyma, yn draddodiadol, y noson cyn i'r Brenhinoedd gyrraedd.
Meddyliwch pa anrheg fyddai Duw yn eich gwahodd chi i roi.

ESGOBAETH LLANELWY
DATGLOI EIN POTENSIAL
UNLOCKING OUR POTENTIAL
DIOCESE OF ST ASAPH

# 12 ffordd o ddathlu Nadolig 2020

@StAsaphDiocese